

# DEWIS A DEFNYDDIO
# SEDDI CAR I BLANT

**NES BOD PLENTYN YN CYRRAEDD 14 OED CYFRIFOLDEB CYFREITHIOL Y GYRRWR YW SICRHAU BOD Y PLENTYN YN CAEL EI ATAL YN GYWIR**



**Rhaid i blant ddefnyddio'r sedd car cywir i blant nes eu bod yn 12 oed neu’n 135cm o daldra p’un bynnag sy'n dod gyntaf.**



**Os yw'r plentyn yn 12 oed neu'n fwy na 135cm o daldra rhaid iddyn nhw ddefnyddio gwregys diogelwch.**

Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

# DEWISWCH SEDD CAR I BLENTYN AR SAIL TALDRA NEU BWYSAU'R PLENTYN

## SEDDI SY'N SEILIEDIG AR BWYSAU

***Mae'r rhain yn ymwneud yn fras â gwahanol grwpiau oedran ond pwysau'r plentyn sydd bwysicaf.***

**Rhaid i seddi sy'n seiliedig ar bwysau fod â label sy'n dangos y briflythyren 'E' mewn cylch ac 'ECE R44'.**

**Mae'n gyfreithlon o dan y rheoliad presennol (R44.04) i blant ddefnyddio sedd Grŵp 1 sy'n wynebu'r blaen pan fyddan nhw'n pwyso 9kg neu fwy, ond nid dyna sy'n cynnig yr amddiffyniad gorau i'r plentyn. Argymhellir cadw'r plentyn yn wynebu'r cefn cyn hired â phosibl.**

| | |
|---|---|
| **GRŴP 0**<br>**0 i 10kg (22 pwys)**<br>**GRŴP 0+**<br>**0 i 13kg (29 pwys)** | **Yn wynebu'r cefn** |
| **GRŴP 1**<br>**9 i 18kg (20 i 40 pwys)** | **Yn wynebu'r cefn/blaen** |
| **GRŴP 2**<br>**15 i 25kg (33 i 55 pwys)**<br>**GRŴP 3**<br>**22 i 36kg (48 i 79 pwys)** | **Sedd hybu â chefn uchel neu glustog hybu** |



**Efallai y byddwch chi'n gallu dewis sedd gyfunol sy'n cwmpasu mwy nag un grŵp. Dydyn ni ddim yn argymell clustog hybu sydd heb gefn neu adenydd ochr, gan ei fod yn tynnu'r amddiffyniad i'r ochr a'r pen sydd gan y sedd car i blentyn.**

## SEDDI SY'N SEILIEDIG AR DALDRA

***Mae'r rhain yn canolbwyntio ar daldra'r plentyn. Gofalwch fod taldra'r plentyn o fewn amrediad uchder y sedd rydych chi'n bwriadu ei defnyddio.***



**Rhaid i seddi sy'n seiliedig ar daldra fod â label sy'n dangos y briflythyren 'E' mewn cylch ac 'R129'.**

**Rhaid i'r plentyn wynebu'r cefn nes eu bod dros 15 mis oed, ond argymhellir eu cadw'n wynebu'r cefn cyn hired â phosibl gan fod hyn yn cynnig mwy o amddiffyniad.**

**Mae seddi car i blant sy'n seiliedig ar daldra sy'n dangos logo 'i-size' yn gydnaws â cherbydau 'i-size' ardystiedig.**

**Diogelwch Ffyrdd Cymru**
**02920 250600**
**diogelwchffyrddcymru.org.uk**

Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

# SICRHAU'R FFIT GYWIR

## NID POB SEDD CAR I BLENTYN SY'N FFITIO POB CERBYD. GWIRIWCH FOD Y SEDD YN GYDNAWS AR WEFAN GWEITHGYNHYRCHYDD Y SEDD CAR

## ISOFIX



Mae ISOFIX yn sicrhau'r sedd car i blentyn (neu sylfaen y sedd) i ddau bwynt angori metel sydd wedi'u hadeiladu i mewn i'r cerbyd.

Mae defnyddio ISOFIX yn ei gwneud hi'n haws gosod sedd car i blentyn a gall leihau'r risg y bydd yn cael ei gosod yn anghywir.

Os nad yw'r cerbyd neu'r sedd car i blentyn yn gydnaws ag ISOFIX, mae'n bosibl sicrhau'r sedd drwy ddefnyddio'r gwregys diogelwch.

Bydd label ar ochr y sedd sy'n dangos sut y dylai gael ei gosod ond darllenwch y cyfarwyddiadau'n ofalus hefyd.

Os oes gan y sedd goes ategol, dylech chi addasu uchder y goes fel bod y sedd yn pwyso'n gadarn yn erbyn y llawr. Efallai y bydd dangosydd gwyrdd yn weladwy pan fydd wedi'i gosod yn gywir.

## DEFNYDDIO'R HARNAIS NEU'R GWREGYS DIOGELWCH

***Rhaid i'r harnais gael ei addasu'n gywir fel bod y plentyn yn ddiogel: dylai'r llawlyfr cyfarwyddiadau helpu gyda hyn.***

Mae'n bwysig gwirio ac addasu'r strapiau yn rheolaidd wrth i'r plentyn dyfu.

Dylai'r harnais ffitio'n ddiogel, gyda digon o fwlch i ffitio un neu ddau fys rhwng brest y plentyn a'r harnais, gan sicrhau ei fod hefyd yn gorwedd yn wastad ac nad yw wedi'i droelli.

Wrth ddefnyddio gwregys diogelwch i ddiogelu'r plentyn, fe ddylai fod slot neu ddangosydd ar y sedd i ddangos ble dylai'r gwregys fynd.

Mae angen i'r gwregys diogelwch orwedd ar draws pelfis, brest ac ysgwydd y plentyn.

Tynnwch siacedi trwchus fel bod moddtynhau'r harnais neu'r gwregys diogelwch yn iawn i amddiffyn y plentyn os bydd gwrthdrawiad.

Efallai y bydd rhai plant yn ceisio tynnu'r harnais neu'r gwregys diogelwch. Er bod ategolion ar gael i'w prynu, dydyn ni ddim yn argymell unrhyw ddyfais sy'n effeithio ar sut mae'r gwregys diogelwch, yr harnais neu'r bwcl yn gweithio.



**Diogelwch Ffyrdd Cymru**
02920 250600
diogelwchffyrddcymru.org.uk

# PWYNTIAU ERAILL I'W HYSTYRIED

## PLANT AG ANGHENION YCHWANEGOL

***Mae plant sydd â chyflyrau meddygol neu anableddau yn dal yn gorfod defnyddio sedd car i blentyn neu wregys diogelwch oni bai bod tystysgrif eithrio wedi cael ei rhoi.***

**Bydd meddyg yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth a gall roi tystysgrif eithrio os nad yw plentyn yn gallu defnyddio ataliad neu wregys diogelwch.**

**Gall sedd car i blentyn neu wregys diogelwch sydd wedi'u haddasu'n arbennig gael eu defnyddio os oes eu hangen, ond ddylai dyfeisiau byth cael eu haddasu heb ofyn am gyngor arbenigol.**

## BAGIAU AER



**Peidiwch byth â gosod sedd car i blentyn sy'n wynebu'r cefn ym mlaen y cerbyd os oes bag aer yn weithredol i'r cyd-deithiwr.**

**Dylai plant deithio yn y cefn os oes modd. Dim ond os nad oes opsiwn arall y dylech chi osod sedd plentyn sy'n wynebu'r blaen yn y blaen.**

**Os oes rhaid ichi wneud hynny, gofalwch fod sedd y cerbyd wedi'i gosod mor bell yn ôl â phosibl.**

## PRYNU SEDD CAR I BLENTYN




**Ystyriwch brynu gan fanwerthwr a fydd yn caniatáu ichi brofi'r sedd yn eich cerbyd a gwirio a ydyn nhw'n gydnaws a'i gilydd.**

**Gwiriwch a ydy'r aelodau staff wedi'u hyfforddi i osod seddi car i blant a gofynnwch iddyn nhw ddangos sut i osod a thynnu'r sedd, ac unrhyw nodweddion ychwanegol sydd ganddi.**

**Os nad oes aelod o staff ar gael i gynorthwyo sydd wedi'i hyfforddi, holwch a oes modd ichi ddychwelyd y sedd car os nad yw'n addas.**

**Os ydych chi'n bwriadu defnyddio sedd car i blentyn mewn mwy nag un cerbyd, gofalwch fod yr eitem rydych chi'n ei phrynu yn ffitio'n gywir ym mhob cerbyd.**

**Gwiriwch y bydd y sedd car i blentyn yn ffitio ym mhob un o safleoedd y seddi lle rydych chi'n bwriadu ei defnyddio.**

**Diogelwch Ffyrdd Cymru**
02920 250600
diogelwchffyrddcymru.org.uk




## CHOOSING AND USING

# CHILD CAR SEATS

**UNTIL A CHILD REACHES 14 YEARS OLD
IT IS THE DRIVER'S LEGAL RESPONSIBILITY TO ENSURE
THAT THE CHILD IS CORRECTLY RESTRAINED**



**Children must use the correct child car seat until they are 12 years old or 135cm tall whichever comes first.**



**If the child is 12 years old or more than 135cm tall they must use a seat belt.**

Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

# CHOOSE A CHILD CAR SEAT BASED ON THE CHILD'S HEIGHT OR WEIGHT

## WEIGHT-BASED SEATS

***These relate broadly to different age groups but it is the weight of the child that is most important.***

**Weight-based seats must have a label showing a capital 'E' in a circle and 'ECE R44'.**

**While it is legal under the current regulation (R44.04) for children to use a forward-facing Group 1 seat when they weigh 9kg or more, it does not offer the child the best protection. It is recommended to keep the child rear-facing for as long as possible.**

| | |
|---|---|
| **GROUP 0**<br>**0 to 10kg (22lb)**<br>**GROUP 0+**<br>**0 to 13kg (29lb)** | **Rear-facing** |
| **GROUP 1**<br>**9 to 18kg (20 to 40lb)** | **Rear/forward-facing** |
| **GROUP 2**<br>**15 to 25kg (33 to 55lb)**<br>**GROUP 3**<br>**22 to 36kg (48 to 79lb)** | **High-backed booster seat or booster cushion** |



**You may be able to choose a combination seat which covers more than one group. A booster cushion, without a back or side wings, is not recommended as it removes side and head protection from the child car seat.**

## HEIGHT-BASED SEATS

***These focus on the child's height.***
***Ensure that the child's height is within range of the seat that you intend to use.***



**Height-based seats must have a label showing a capital 'E' in a circle and 'R129'.**

**The child must be rear-facing until they are over 15 months old, but it is recommended to remain rear-facing as long as possible as this offers greater protection.**

**Height-based child car seats displaying an 'i-size' logo are compatible with 'i-size' certified vehicles.**


**Road Safety Wales**
**02920 250600**
**roadsafetywales.org.uk**

# ENSURING THE CORRECT FIT

## NOT ALL CHILD CAR SEATS FIT ALL VEHICLES
## CHECK COMPATIBILITY ON THE CAR SEAT MANUFACTURER'S WEBSITE

## ISOFIX



ISOFIX secures the child car seat (or seat base) to two metal anchor points built into the vehicle.

Using ISOFIX makes it easier to fit a child car seat and can reduce the risk of it being fitted incorrectly.

If the vehicle or child car seat are not compatible with ISOFIX it is possible to secure the seat using the seat belt.

There will be a label on the side of the seat showing how it should be fitted but also read the instructions carefully.

If the child seat has a supporting leg, the leg should be adjusted for height so that the seat is braced against the floor. A green indicator may be visible when set correctly.

## USING THE HARNESS OR SEAT BELT

***The harness must be correctly adjusted so that the child is secure: the instruction manual should help with this.***

It is important to perform regular checks and adjustments of the straps as the child grows.

The harness should fit securely, with just enough gap to fit one or two fingers between the child's chest and the harness, making sure it also lies flat and is not twisted.

When a seat belt is used to secure the child, there should be a slot or indicator on the seat to show where the belt should go.

The seat belt needs to sit across the child's pelvis, chest and shoulder.

Remove thick jackets so that the harness or seat belt can be tightened properly to protect the child in the event of a collision.

Some children may attempt to remove the harness or seat belt. Although accessories are available to purchase, any device that impacts how the seat belt, harness or buckle works are not recommended.



Road Safety Wales
02920 250600
roadsafetywales.org.uk

# OTHER POINTS TO CONSIDER

## CHILDREN WITH ADDITIONAL NEEDS

***Children with medical conditions or disabilities must still use a child car seat or seat belt unless an exemption certificate is issued.***

**A doctor will be able to provide more information and can issue an exemption certificate if a child is unable to use a restraint or seat belt.**

**A specially adapted child car seat or seat belt can be used if necessary but devices should not be adapted without seeking expert advice.**

## AIRBAGS

**Never fit a rear-facing child car seat in the front of a vehicle if there is an active passenger airbag.**

**Children should travel in the rear if possible.**

**Only fit a forward-facing child seat in the front if there is no other option.**

**If you must do so, ensure that the vehicle seat is set as far back as possible.**



## PURCHASING A CHILD CAR SEAT



**Consider purchasing from a retailer that will allow you to test-fit the seat in your vehicle and check if they are compatible.**

**Check if staff members have been trained to fit child car seats and ask them to demonstrate installing and removing the seat, along with any additional features it may have.**

**If there is not a trained member of staff available to assist, find out if it possible for you return the car seat if it is not suitable.**

**If you intend to use a child car seat in more than one vehicle, ensure that the item you purchase fits correctly in each vehicle.**

**Check that the child car seat will fit in each of the seat positions that you intend to use it in.**

**Road Safety Wales**
02920 250600
roadsafetywales.org.uk